

YDYCH CHI'N GWYBOD AM BLENTYN SYDD "AR GOLL I FYD ADDYSG"?

Os ydych chi, byddwch gystal â
chysylltu â Gwasanaeth Mynychu'r
Ysgol a Lles Rhondda Cynon Taf



GWASANAETH MYNYCHU'R YSGOL A LLES



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

CYFLWYNIAD

Mae gan blant a phobl ifainc rhwng 5 ac 16 blwydd oed hawl gyfreithiol i gael addysg. Yn ôl y gyfraith, mae eu rhieni, neu'r sawl sy'n rhoi gofal iddyn nhw, yn gyfrifol dros ofalu eu bod nhw'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon unwaith maen nhw wedi'u cofrestru yn ddisgyblion.

Pan fo rhieni (neu eraill sy'n rhoi gofal) yn cael anhawster ynglŷn â chofrestru plentyn mewn ysgol, fe all yr awdurdod addysg lleol (AALL) estyn cymorth drwy ei Wasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles (GMYLL) neu Wasanaeth Derbyn yn yr Ysgol.

Mae Deddf 'Addysg ac Arolygiadau' 2006 wedi rhoi dyletswydd statudol ar awdurdod Rhondda Cynon Taf i sefydlu trefniadau a fydd o gymorth, hyd y bo modd, i ddod o hyd i unrhyw blant yn ei diriogaeth a fo "ar goll i fyd addysg". Unwaith y daw o hyd iddyn nhw, bydd GMYLL yn mynd ati i'w cynorthwyo nhw a'u teuluoedd i fanteisio ar wasanaeth addysg addas cyn gynted ag y bo modd.

BETH YDY YSTYR "ADDYSG ADDAS"?

"Addysg amser-llawn effeithlon, sy'n gweddu i oedran, gallu ac addasrwydd plentyn ynghyd ag unrhyw anghenion addysgol arbennig a fo ganddo" ydy ystyr "addysg addas". (Mae gan rieni hawl gyfreithiol i ddewis rhoi addysg i'w plant gartref.

BETH YDY YSTYR 'PLANT SY AR GOLL I FYD ADDYSG'?

Mae hyn yn golygu unrhyw blant a fo rhwng 5 ac 16 blwydd oed:

- nad ydy eu henwau ar gofrestr ysgol ac sydd wedi'u nodi yn rhai sy wedi bod heb unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod mwy na 4 wythnos
- nad ydyn nhw'n cael unrhyw addysg gartref

Fydd plant ddim yn cael eu dosbarthu yn rhai "ar goll i fyd addysg" am y rheswm syml eu bod yn absennol o'r ysgol - neu unrhyw ddarpariaeth amgen mae'r awdurdod lleol yn ei chynnal - lle cawson nhw'u cofrestru.

DYMA'R PLANT A'R BOBL IFAINC SY'N DUEDDOL O SYRTHIO I DDOSBARTH "AR GOLL I FYD ADDYSG":

- Plant dan ofal/wedi bod dan ofal yr awdurdod lleol ('Plant sy'n Derbyn Gofal')
- Disgyblion a gafodd eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol
- Plant a phobl ifainc sy'n brif roddwyr gofal yn eu teuluoedd (Cynhalwyr/Gofalwyr Ifainc)
- Mamau ifainc yn eu harddegau
- Teuluoedd sydd mewn trallod (e.e. yn preswyllo mewn lloches i fenywod)
- Teuluoedd a fo'n dod yma o ardal awdurdod lleol arall neu o wlad arall
- Plant a phobl ifainc a chyda nhw anawsterau meddygol neu deimladol
- Plant teuluoedd o ffoaduriaid neu deuluoedd sy'n ceisio lloches

Y PERYGLON SY YNGHLWM Â BOD 'AR GOLL I FYD ADDYSG:

Mae plant a phobl ifainc sy "ar goll i fyf addysg" mewn perygl o'r canlynol:

- Cael eu tynnu i mewn yn rhan o arferion troseddol
- Amlygu ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Camddefnyddio'r ddiod gadarn a chyffuriau eraill
- Dioddef dan law rhai sy'n camdrin plant yn rhywiol
- Dioddef niwed corfforol a theimladol

Mae hi'n hanfodol bod Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn cydweithio'n agos â'r rhai hynny sy'n dal cysylltiad â phlant a phobl ifainc - yn bobl mewn rôl broffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd – fel bo modd inni roi cymorth ynglŷn â'u diogelu.

PAM MAE PLANT YN MYND AR GOLL I FYD ADDYSG?

Mae nifer o resymau dros i blant a phobl ifainc fynd ar goll i fyd addysg, e.e.

- Chawson nhw mo'u cofrestru mewn ysgol ar yr adeg troeson nhw yn bum mlwydd oed
- Maen nhw wedi'u tynnu o'r ysgol i'w haddysgu gan eu rhieni (addysg gartref)
- Dydy eu teuluoedd ddim yn llwyddo i ddod o hyd i le addas mewn ysgol wedi iddyn nhw symud i'r ardal
- Hwyrach bod anawsterau ynglŷn ag ymddygiad/absenoldebau heb eu datrys
- Amgylchiadau anodd y teulu/rhwystrau iaith
- Mae'r teuluoedd yn byw bywyd crwydrol

BETH ALLWCH CHI'I WNEUD I FOD O GYMORTH?

Mae hi'n hanfodol ein bod ni'n sefydlu systemau i ofalu bod plant a phobl ifainc Rhondda Cynon Taf yn ddiogel ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol a chymdeithasol sydd ar gael iddyn nhw.

Os gwyddoch chi am blant yn yr oedran ar gyfer addysg orfodol (5 – 16 blwydd oed), nad ydyn nhw'n cael addysg – neu eich bod chi'n amau hynny – cysylltwch â Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Tŷ Trevithick, Abercynon,
Aberpennar, CF45 4UQ
Ffôn: 01443 744298 • Ffacs: 01443 744230
Ebost: aws@rctcbc.gov.uk

A chithau'n aelod o'r cyhoedd, gallwch chi fod yn dawel eich meddwl y byddwn ni'n trin eich galwad yn gyfrinachol a chydâ'r parch dyledus.